

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Deintyddfa Rumney Hill

Dyddiad y gweithgarwch: 12 Ebrill 2021

Dyddiad cyhoeddi: 17 Mai 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ddeintyddfa Rumney Hill fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol preifat ac ar ran y GIG.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a rheoliadau perthnasol eraill. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig a'r rheolwr busnes ar 12 Ebrill 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut rydych yn sicrhau bod pob claf (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion a staff. Gwnaethom edrych ar yr asesiadau risg a'r adolygiadau o ddigwyddiadau, a holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i gael gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud i amgylchedd y practis o ganlyniad i'r pandemig. Mae Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer y staff a'r cleifion ar gael yn ogystal â manau diheintio dwylo ar hyd a lled y practis. Cafodd amserlenni glanhau eu diwygio fel bod modd glanhau'n amlach. Dywedwyd wrthym fod y practis yn diweddarau eu Gweithdrefn Gweithredu Safonol yn unol â diweddariadau a chynngor gan gyrff allanol. Roedd hyn yn cynnwys canllawiau a gyhoeddwyd o fewn y Weithdrefn Gweithredu Safonol ar gyfer rheoli gofal deintyddol cleifion yng Nghymru nad ydynt wedi'u heintio â COVID-19. Dywedwyd wrthym y byddai timau o staff yn parhau'n gyson lle bo'n bosibl er mwyn lleihau cyswllt diangen rhwng aelodau o staff eraill, i helpu i gynnal gwasanaethau.

Dywedwyd wrthym am y newidiadau a wnaed i'r amgylchedd i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 o fewn yr ardaloedd cymunedol a'r ystafelloedd triniaeth. Roedd y rhain yn cynnwys mesurau cadw pellter cymdeithasol a dim ond cleifion a oedd wedi trefnu apwyntiadau ymlaen llaw oedd yn gallu ymweld â'r practis. Roedd celfi a seddi wedi cael eu symud o'r ystafelloedd aros. Roedd pob eitem ddiangen wedi cael ei symud o'r ystafelloedd triniaeth. Cafodd un ardal aros ei throi yn lle gweinyddu i'r staff ac roedd un arall yn ardal ddynodedig i wisgo a diosg¹ cyfarpar diogelu personol.

Dywedwyd wrthym y gofynnir i gleifion fynychu eu hapwyntiadau ar amser a pheidio â chyrreadd yn gynt gan nad oedd ardaloedd aros i gleifion ar gael. Mae'r drysau i'r practis yn aros ar gau hyd nes i aelod o'r staff roi cyfarwyddyd i glaf ddod i mewn. Wrth fynd i mewn i'r practis, mae'r staff yn mesur tymheredd ac yna'n ei gofnodi, yn darparu masg wyneb newydd (os oes angen un) ac yn cynnig hylif diheintio dwylo. Mae aelod penodol o'r staff yn hebrwng yr holl gleifion i'r deintyddfeydd ac oddi yno. Mae'r staff yn defnyddio *walkie talkies* i gyfathrebu â'r lleill ynghylch ble mae'r cleifion a'r staff i sicrhau bod y rhodfeydd yn cael eu cadw'n glir a bod pellter cymdeithasol yn cael ei gynnal.

Dywedwyd wrthym fod asesiadau risg COVID-19 wedi cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff. Gan ddibynnu ar ganlyniad yr asesiad, byddai'r practis yn penderfynu a oes angen i'r aelod hwnnw o staff warchod² neu ymgymryd â swydd wahanol yn y practis.

¹Gwisgo - rhoi cyfarpar diogelu personol ymlaen; Diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol i ffwrdd

²Defnyddir y gair hwn i ddisgrifio'r ffordd y dylai'r bobl risg uchel amddiffyn eu hunain drwy beidio â gadael eu cartrefi a lleihau pob cyswllt wyneb yn wyneb.

Dywedwyd wrthym fod gan bob un o'r pum meddygfa ddigon o gyfarpar i gynnal Gweithdrefnau Cynhyrchu Aerosol (AGP)³. Gosodwyd system awyru mecanyddol er mwyn hwyluso'r gwaith o ddileu aer halogedig. Lle y bo'n bosibl, roedd cleifion yr oedd angen triniaethau AGP arnynt yn cael apwyntiadau yn agos at amser cinio ac ar ddiwedd y dydd fel y gellid cwblhau gwaith glanhau ychwanegol gan darfu cyn lleied â phosibl ar amseroedd apwyntiadau.

Er mwyn sicrhau bod digon o amser ar gael i ddiheintio'r ddeintyddfa rhwng cleifion, roedd llai o apwyntiadau ar gael. Nododd y staff nad oedd hyn wedi cael unrhyw effaith ar brofiad y cleifion na'r gofal yr oedd y cleifion yn ei gael. Dywedodd y rheolwr cofrestredig a'r rheolwr busnes eu bod yn teimlo bod y staff yn gweithio'n dda o fewn y cyfyngiadau a'r canllawiau a'u bod wedi addasu'n dda iddynt.

Gwelsom dystiolaeth o asesiad risg penodol i COVID-19 a gwblhawyd ym mis Ionawr 2020 ac asesiad risg amgylcheddol a ddiweddarwyd ym mis Ionawr 2021. Caiff dulliau rheoli neu gamau gweithredu presennol eu dogfennu yn yr asesiad.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r practis wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r practis yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Darparwyd amryw ddogfennau i ni ar gyfer atal a rheoli heintiau, a oedd yn cynnwys Gweithdrefn Gweithredu Safonol wedi'i Diweddarau, Protocolau ac Asesiadau Risg ar gyfer Gweithio gyda Phandemig y Coronafeirws, 18 Chwefror 2021. Gwelsom dystiolaeth o archwiliad Atal a Rheoli Heintiau, ynghyd ag amserlenni glanhau'r practis a chofnodion ar gyfer dihalogi offerynnau a chyfarpar deintyddol.

Dywedwyd wrthym am y systemau sydd ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i atal a rheoli heintiau, ac yn eu cyflawni. Gwelwyd dystiolaeth o hyn yn nogfen Gweithdrefn Gweithredu Safonol y practis oedd yn nodi camau gweithredu a chyfrifoldebau'r rheolwyr a'r staff er mwyn atal lledaeniad y feirws. Yn ogystal â hyn, dywedwyd wrthym fod hyfforddiant ar gyfarpar diogelu personol, sy'n cynnwys gwisgo a diosg PPE a hyfforddiant masgiau wedi cael ei ddarparu i bob aelod o'r staff.

³ Gweithdrefn feddygol yw gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol (AGP), a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r llwybr anadlol wrth drin unigolyn yr amheuir neu y gwyddys ei fod yn dioddef â chyfrwng heintus a gaiff ei drosglwyddo, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, drwy'r awyr neu drwy ddefnyddiau.

Dywedwyd wrthym pan fydd gweithdrefnau AGP yn cael eu cynnal, y caiff y ddeintyddfa ei threfnu cyn i'r claf gyrraedd, er mwyn sicrhau bod y cyfarpar angenrheidiol ar gael. Caiff hyn ei baratoi ymlaen llaw i leihau nifer y staff sy'n mynd i mewn i'r ddeintyddfa neu'n ei gadael yn ystod y driniaeth. Dywedodd y staff wrthym fod nyrs redeg ar ddyletswydd i hebrwng y cleifion yn ôl ac ymlaen o'r ddeintyddfa. Mae'r arferion hyn yn sicrhau bod llai o risg o haint yn ystod y gweithdrefnau.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff wedi cael eu brechlynnau COVID-19, ac roedd y rhan fwyaf wedi cael y ddau ddos gofynnol.

Esboniodd y staff y cysylltir â'r cleifion dros y ffôn cyn eu hapwyntiad i ofyn cyfres o gwestiynau iddynt er mwyn penderfynu a oeddent mewn perygl o drosglwyddo'r feirws. Wrth gyrraedd y practis, caiff tymheredd y cleifion ei fesur a dilynir y weithdrefn a nodir yn y Weithdrefn Gweithredu Safonol i sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion wrth fynd i mewn i'r practis. Cafodd cleifion a oedd yn dangos symptomau neu'n aros am ganlyniad prawf COVID-19 gyfarwyddyd i aros gartref ac i beidio â mynychu'r practis.

Nododd y practis bod ganddynt ddigon o gyfarpar diogelu personol a bod gwiriadau stoc rheolaidd yn cael eu cynnal. Dywedwyd wrthym fod nyrsys deintyddol yn gyfrifol am sicrhau bod digon o gyfarpar diogelu personol ar gael yn eu deintyddfa a'u bod ar gael o'r storfa stoc ganolog. Mae aelod o'r staff yn goruchwyllo'r stociau canolog ac yn archebu mwy drwy lyfr archebu unwaith neu ddwywaith y mis.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Cawsom gopïau o'r cofnodion glanhau ar gyfer ardaloedd clinigol. Nodwyd bod y flwyddyn anghywir wedi'i chofnodi ar rai, yn enwedig ar gofnodion ar gyfer mis Ionawr 2021. Cafodd rhai cofnodion glanhau eu nodi â'r dyddiad 2020 pan ddylent fod yn 2021.

Yn ogystal, amlygodd adolygiad o'r data a gofnodwyd ar y cofnodion glanhau rai bylchau. Roedd un cofnod, dyddiedig 6 Ionawr 2020 ar gyfer deintyddfa AB, wedi rhoi tic wrth y blwch glanhau cyfarpar unwaith, ond roedd diwrnod llawn o apwyntiadau wedi'u cofnodi.

Yn ogystal, roedd rhai cofnodion wedi ticio'r blwch glanhau llawr unwaith, er bod Gweithdrefn Gweithredu Safonol y practis yn nodi "Mae'n rhaid glanhau holl lorïau'r ardal glinigol o leiaf ddwywaith y dydd (Ar ddechrau'r sesiwn (os na wnaed hyn yn y nos ar ôl diwedd y sesiwn olaf), amser cinio ac ar ddiwedd y dydd)." At hynny, roedd gan y cofnod glanhau ar gyfer yr Ystafell DF dyddiedig 2 Chwefror 2021 dri apwyntiad prynhawn wedi'u cofnodi. Ni chafodd unrhyw ddata arall eu cadw i gadarnhau a ddigwyddodd yr apwyntiadau hynny.

Argymhellwn fod y rheolwr cofrestredig yn adolygu'r cofnodion ac yn penderfynu a yw'r data a gofnodir yn gywir ac yn adlewyrchu Gweithdrefn Gweithredu Safonol y practis. Argymhellwn hefyd fod y cofnodion yn cael eu gwirio'n rheolaidd i sicrhau bod y data'n cael

eu cofnodi'n gywir.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar gael i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwnaethom edrych ar lefelau staffio a chleifion, hyfforddiant ac absenoldebau staff, strwythurau rheoli, swyddogaethau a chapasiti'r practis, digwyddiadau ac amrywiaeth o bolisiau.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion hyfforddiant, a oedd yn dangos cydymffurfiaeth â'r hyfforddiant gorfodol. Esboniodd y staff y broses ar gyfer sicrhau bod hyfforddiant yn gyfredol hefyd. Roedd y staff wedi parhau i ddefnyddio pecynnau e-ddysgu⁴ ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Yn ogystal, cynhaliwyd hyfforddiant wyneb yn wyneb mewn grwpiau bach i'r staff er mwyn sicrhau bod y sgiliau a'r wybodaeth yn parhau'n gyfoes.

Dywedwyd wrthym na wnaeth y practis gau yn ystod camau cyntaf y pandemig. Trwy gydol y pandemig, mae'r practis wedi cynnal system o gymryd galwadau ar gyfer gwasanaeth brysbennu⁵ o bell gan glinigydd. Mae hyn yn sicrhau bod modd darparu gofal cleifion yn unol â'u hanghenion.

Mae'r practis wedi cynnal ei brosesau ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau, ac mae'r prif ddeintydd a'r rheolwr busnes yn goruchwyllo unrhyw ddigwyddiadau. Dywedwyd wrthym fod y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran rhoi gwybod am ddigwyddiadau i asiantaethau rheoleiddiol gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Roedd unrhyw ddiweddariad ar ganllawiau ar gyfer gweithwyr proffesiynol gofal iechyd yn cael ei roi mewn cyfarfodydd staff rheolaidd, drwy grŵp cyfryngau cymdeithasol y staff, trwy e-byst a galwadau fideo.

Esboniwyd y broses o wirio'r cyfarpar mewn argyfwng a'r meddyginiaethau. Mae un aelod o'r staff yn gyfrifol am gyflawni'r gwiriadau a chofnodi'r canfyddiadau yn y cofnodion priodol. Mae protocol ysgrifenedig ar waith i gontractwyr allanol ar ymweliad ac mae'n cynnwys yr un broses brysbennu a ddefnyddir ar gyfer yr holl staff a'r cleifion wrth ddod i mewn i'r practis.

Gwnaethom adolygu'r Daflen Wybodaeth i Gleifion⁶, a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol ac mae ar gael ar wefan y practis.

⁴ Dysgu a gynhelir drwy gyfryngau electronig, ar y rhyngrwyd fel arfer.

⁵ Pennu graddau difrifoldeb er mwyn penderfynu ar y drefn o ran darparu triniaeth i nifer o gleifion.

⁶ Gwybodaeth fel sy'n ofynnol gan Atodlen 2 o'r rheoliadau uchod.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Mae Rheoliad 23⁷ o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn gofyn i'r darparwr cofrestredig ymweld â'r practis a pharatoi adroddiad ysgrifenedig ar ymddygiad y practis. Ni roddwyd dyddiad ar yr adroddiad a ddarparwyd ac nid oedd yn cynnwys y meysydd gofynnol. Felly, rydym yn argymhell bod yr unigolyn cyfrifol yn adolygu gofynion Rheoliad 23 ac yn ymweld â'r ddeintyddfa cyn gynted ag sy'n bosibl. Dylid cyflwyno'r adroddiad a luniwyd yn dilyn yr ymweliad i AGIC a'r personau eraill a nodwyd yn Rheoliad 23.

Cyflwynodd y practis ddatganiad o ddiben⁸. Fodd bynnag, nid oedd y ddogfen a gyflwynwyd yn cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y Rheoliadau. Yn ystod ein trafodaethau, cadarnhawyd datganiad o ddiben gennym a gyflwynwyd i AGIC ym mis Rhagfyr 2017 fel rhan o'r broses gofrestru. Argymhellwyd bod y practis yn adolygu'r ddogfen a gyflwynwyd i AGIC ym mis Rhagfyr 2017, fel oedd yn ofynnol gan y rheoliadau, ac yn diweddarau'r cynnwys. Dylid anfon y copi wedi'i ddiweddarau i AGIC a sicrhau ei fod ar gael ar wefan y practis hefyd.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

⁷Mae Rheoliad 23 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn gofyn am ymweliadau gan y darparwr cofrestredig â'r practis deintyddol preifat

⁸ Ystyr "datganiad o ddiben" ("*statement of purpose*") yw'r datganiad a luniwyd yn unol â rheoliad 5(1) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) ac Atodlen 1.

Cynllun gwella

Lleoliad: Deintyddfa Rumney Hill

Dyddiad y gweithgarwch: 12 Ebrill 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r cofnodion glanhau a sicrhau bod y data a gofnodir yn gywir ac yn adlewyrchu'r camau gweithredu a nodwyd yn y Weithdrefn Gweithredu Safonol. Dylid adolygu'r cofnodion glanhau'n rheolaidd i sicrhau y caiff safonau eu cynnal.	Safonau Iechyd a Gofal - Safon 3.5 Cadw Cofnodion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 16 (1) (a)	Nodwyd y gwallau clercaidd. Roeddem yn falch o weld mai anaml oedd y methiannau hynny. Atgoffwyd y staff o bwysigrwydd cwblhau'r cofnodion bob amser ar ôl glanhau. Cydymffurfir yn ddiwyd â'r protocol Gweithdrefn Gweithredu Safonol a chaiff y lloiau eu glanhau ar ddiwedd pob sesiwn glinigol, ond (fel y nodwyd yn yr adroddiad), gall y staff weithiau benderfynu glanhau'n amlach, yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Bydd rheolwr y practis yn gwirio bob wythnos bod y cofnodion yn	Dr P. Bartley	21.4.2021 Gweithredwyd a Chwblhawyd.

			cael eu cwblhau.		
2	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu adroddiad Rheoliad 23 a'i ddiweddarau i gynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliad. Rhaid anfon copi i AGIC.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 23 (4) (a), (b) ac (c)	Yn anffodus, nid oeddem yn ymwybodol o'r angen am yr adroddiad hwn ers ein harolygiad diwethaf 7 mlynedd yn ôl. Fodd bynnag, rydym yn hapus i ufuddhau, ac mae'r adroddiad wedi'i lunio a'i anfon ymlaen i AGIC.	Dr P. Bartley	21.4.2021 Cwblhawyd a chyflwynwyd
3	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r datganiad o ddiben; diweddarau'r cynnwys lle bo'n berthnasol, anfon copi i AGIC a sicrhau bod modd cael copi drwy wefan y practis.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 5 (1) gan gynnwys Atodlen 1 a (2)	Bydd datganiad o ddiben yn cael ei adolygu, ei ddiwygio a'i gyflwyno.	Dr P. Bartley	22.4.2021 Cwblhawyd a chyflwynwyd.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Dr P Bartley

Dyddiad: 22/04/2021